ATODLEN 3 Rheoliad 4(6)

Meini prawf dethol ar gyfer sgrinio datblygiad Atodlen 2

**Nodweddion y datblygiad**

**1.** Rhaid ystyried nodweddion y datblygiad gan roi sylw yn arbennig ar—

(a) maint y datblygiad;

(b) y cyfuniad gyda datblygiad arall;

(c) y defnydd o adnoddau naturiol;

(d) cynhyrchu gwastraff;

(e) llygredd a niwsans;

(f) y perygl o ddamweiniau, gan roi sylw yn arbennig i'r sylweddau neu'r technolegau a ddefnyddir.

**Lleoliad y datblygiad**

**2.** Rhaid i sensitifrwydd amgylcheddol ardaloedd daearyddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan ddatblygiad gael ei ystyried, gan roi sylw, yn arbennig i'r nodweddion a ganlyn—

(a) y defnydd presennol o'r tir;

(b) digonedd cymharol, ansawdd a chapasiti atgynhyrchiol adnoddau naturiol yn yr ardal;

(c) capasiti amsugnad yr amgylchedd naturiol, gan roi sylw arbennig i'r ardaloedd canlynol—

(i) gwlypdiroedd;

(ii) parthau arfordirol;

(iii) ardaloedd mynyddoedd a choedwigoedd;

(iv) gwarchodfeydd natur a pharciau;

(v) ardaloedd a ddosberthir neu a amddiffynnir o dan ddeddfwriaeth Aelod-wladwriaethau, ardaloedd a ddynodir gan Aelod-wladwriaethau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2009/147/EC ar warchod adar gwyllt(**1**) a Chyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt(**2**);

(vi) ardaloedd lle rhagorwyd ar y safonau ansawdd amgylcheddol a nodir yn neddfwriaeth yr UE yn barod;

(vii) ardaloedd trwchus eu poblogaeth;

(viii) tirweddau o arwyddocâd hanesyddol, diwylliannol neu archeolegol.

**Nodweddion yr effaith potensial**

**3.** Rhaid ystyried effeithiau sylweddol potensial y datblygu mewn perthynas â'r meini prawf a nodir o dan baragraffau 1 a 2 uchod, a rhoi sylw yn arbennig i'r canlynol—

(a) graddau'r effaith (arwynebedd daearyddol a maint y boblogaeth yr effeithir arni);

(b) natur drawsffiniol yr effaith;

(c) maint a chymhlethdod yr effaith;

(d) tebygolrwydd yr effaith;

(**1**) O.J. Rhif L 20, 26.1.2010, t. 7.
(**2**) O.J. Rhif L 206, 22.7.1992, t. 7.

(e) parhad, amledd a gwrthdroadwyedd yr effaith.